Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020

# Y Rhaglen Datblygu Gwledig/EMFF Newid/Ailwerthuso Prosiectau – Canllawiau ar Gwblhau Cais

OGL

© Hawlfraint y Goron 2021 ISBN: 978-1-80082-888-9

## Cynnwys

Diben y Canllawiau hyn ..... 1
1. Sut i ofyn am newidiadau i brosiect sydd wedi cael ei gymeradwyo ..... 1
2. Sut i gwblhau Cais i Newid Prosiect ..... 1
Dechrau Cais ..... 2
Cyflwyniad ..... 3
Yr Hysbysiad Preifatrwydd ..... 4
Newidiadau i'r Prosiect ..... 5
Crynodeb ..... 6
Datganiadau ac Ymrwymiadau ..... 7
3. Sut i gwblhau'r Ffurflen Ailwerthuso Newid Prosiect ..... 9
Dechrau'r Cais ..... 10
Cyflwyniad ..... 11
Manylion y Prosiect ..... 12
Rhesymau dros Newidiadau ..... 13
Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb ..... 14
Datganiadau ac Ymrwymiadau ..... 15

**Diben y Canllawiau hyn**

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi esboniad fesul cam o sut i ofyn am newidiadau i brosiectau sydd wedi'u cymeradwyo o dan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020 a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop 2014 – 2020.

Newid neu ailwerthuso Prosiect yw'r broses o gytuno ar newidiadau sylweddol i brosiect sydd wedi cael ei gymeradwyo. I gael rhagor o fanylion am ba newidiadau y gellir gofyn amdanynt, gweler y Canllawiau i Ymgeiswyr Prosiect ar ofyn am Newidiadau i Brosiect sydd wedi cael ei gymeradwyo.


## 1. Sut i ofyn am newidiadau i brosiect sydd wedi cael ei gymeradwyo

I ofyn am newidiadau i'ch prosiect, mae proses dau gam:

- Cam 1 – cwblhau Cais i Newid Prosiect drwy eich cyfrif RPW Ar-lein
- Cam 2 – ar ôl i'ch cais gael ei brosesu, gofynnir ichi gwblhau’r ffurflen Ailwerthuso Newid Prosiect ar RPW Ar-lein

## 2. Sut i gwblhau Cais i Newid Prosiect

Yn RPW Ar-lein, cliciwch ar **Hafan** fel y dangosir yn y sgrin lun i gael mynediad i'r sgrin Hafan.





Yn yr adran ‘**Dechrau Ffurflen**’ ar waelod y sgrin Hafan, cliciwch ar y ddolen **Cais i Newid Prosiect** fel y dangosir yn y sgrin lun:



[Yn ôl i'r Tabl Cynnwys](#)

**Dechrau Cais**

Mae'r dudalen hon yn rhoi eich gwybodaeth cwsmer cyn dechrau ar y Cais i Newid Prosiect. Mae’n cynnwys dolen ar gyfer y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid, rhag ofn bod angen cysylltu â nhw, a chofnod o'ch Dewisiadau Ar-lein. Dylech wirio a newid y rhain cyn cychwyn eich cais os ydynt yn anghywir. Dangosir y dudalen yn y sgrin lun isod:





[Yn ôl i'r Tabl Cynnwys](#)

## Cyflwyniad

Rydych bellach wedi cyrraedd y Cyflwyniad i'r ffurflen gais, fel y dangosir yn y sgrin lun isod. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen yr holl nodiadau ar yr adran hon.

Ar y chwith dangosir y gwahanol adrannau. Mae croes goch yn dangos nad ydych wedi mynd i mewn i bob adran eto, neu fod gwallau yn yr adran(nau). Bydd tic gwyrdd yn ymddangos pan fyddwch wedi cwblhau pob adran ac nid yw'r system wedi nodi unrhyw wallau.

Mae botymau gwe-lywio ar frig a gwaelod y ffurflen. Gallwch newid i'r ffurflen Gymraeg drwy ddewis Cymraeg ar waelod y sgrin ar yr ochr chwith.





Pan fyddwch wedi gorffen yn yr adran hon, cliciwch **Nesaf**.

[Yn ôl i'r Tabl Cynnwys](#)

## Yr Hysbysiad Preifatrwydd

Nesaf gwelwch yr Hysbysiad Preifatrwydd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y wybodaeth yn yr adran hon, sy'n nodi ar gyfer beth y defnyddir y data a roddir gennych, fel y dangosir yn y sgrin lun isod:



Hysbysiad Preifatrwydd

Yn ôl | Safio | Nesaf

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i brosesu eich cais. Hwy hefyd fydd y rheolwr data ar gyfer y data personol a roddwch. Mae angen i ni gasglu'r wybodaeth hon er mwyn i ni brosesu eich cais. Gall Llywodraeth Cymru hefyd ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir at ddibenion eraill, a fydd yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau a'i dyletswyddau o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd. Gall methu â darparu'r holl wybodaeth ofynnol olygu na fyddwn yn gallu prosesu eich cais.

Fel rhan o'n gwaith o brosesu eich cais efallai y bydd angen i ni rannu'r wybodaeth a roddwch gyda'r partïon canlynol

- Asiantaethau Atal Twyll
- Awdurdodau rheoleiddio, megis Cyllid a Thollau EM, Awdurdodau Lleol a'r Heddlu

Mae gennych yr hawliau a ganlyn:

- Yr hawl i weld y data personol yr ydym yn eu prosesu amdanoch;
- Yr hawl i sicrhau ein bod yn cywiro unrhyw gamgymeriadau yn y data hynny;
- Yr hawl (o dan amgylchiadau penodol) i wrthwynebu prosesu'r wybodaeth;
- Yr hawl (o dan amgylchiadau penodol) i gael eich data wedi'u 'dileu';
- Cyflwyno cwyn i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru a'r defnydd ohono, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Cyfeiriad e-bost: dataprotectionofficer@llyw.cymru

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: https://cy.ico.org.uk/

Bydd y cyfnod cadw ar gyfer y data sydd gennym yn unol â Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 908/2014, 'Cadwraeth Gwybodaeth Gyfrifyddu'.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y datganiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â Chanolfan Cyswllt Cwsmeriaid RPW.


https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-grantiau-llywodraeth-cymru

Pan fyddwch wedi gorffen yn yr adran hon, cliciwch **Nesaf**.

[Yn ôl i'r Tabl Cynnwys](#)

**Newidiadau i'r Prosiect**

Yn y dudalen hon, rydych yn rhoi manylion y prosiect a'r newidiadau yr hoffech eu gwneud i'r prosiect:





- rhowch **deitl y prosiect**
- Dewis y **Cynllun** o'r gwymplen
- rhowch **rif adnabod yr achos** (cyfeirnod 5 digid ar gyfer eich prosiect sydd wedi cael ei gymeradwyo)
- atebwch **Ydw** i unrhyw gwestiynau sy'n berthnasol i'r newidiadau rydych am eu gwneud; rhaid rhoi ateb i bob cwestiwn felly dewiswch **Nac ydw** os nad oes angen y newid

Pan fyddwch wedi gorffen yn yr adran hon, cliciwch **Nesaf**.

[Yn ôl i'r Tabl Cynnwys]


## Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Mae'r dudalen hon yn rhoi crynodeb o'r newidiadau rydych yn gofyn amdanynt ac yn dangos unrhyw wallau. Os oes angen ichi wneud unrhyw newidiadau, dewiswch **Yn ôl,** neu os ydych yn hapus i fwrw ymlaen, cliciwch **Nesaf**.




## Datganiadau ac Ymrwymiadau


Pan fyddwch yn fodlon eich bod wedi cwblhau'r ffurflen, ticiwch rwyf yn cytuno i'r datganiad a'r ymrwymiadau uchod a chlicio **Nesaf**,  fel y dangosir yn y sgrin lun isod:




Wedyn cliciwch **Cyflwyno**, fel y dangosir isod:




Bydd y neges ganlynol yn ymddangos yn cadarnhau bod y Cais i Newid Prosiect wedi cael ei gyflwyno.




Pan fyddwch wedi cyflwyno'r Cais i Newid Prosiect, bydd yr Uned Rheoli Cynlluniau yn adolygu eich cais ac yn eich hysbysu chi os bydd angen ichi gwblhau Ffurflen Ailwerthuso ar-lein. Os bydd angen gwneud hynny, bydd y ffurflen hon a dogfennau atodol ar gael yn eich cyfrif RPW ar-lein ichi eu cwblhau.

## 3. Sut i gwblhau'r Ffurflen Ailwerthuso Newid Prosiect

Mae'r ffurflen hon ar gael ar Dudalen Hafan RPW Ar-lein.





Yn yr adran '**Dechrau Ffurflen**' ar waelod y sgrin Hafan, cliciwch ar y ddolen **Ailwerthusiad Newid Prosiect** fel y dangosir yn y sgrin lun:



## Dechrau'r Cais

Mae'r dudalen hon yn rhoi gwybodaeth y cwsmer cyn dechrau ar yr ffurflen Ailwerthuso Newid Prosiect, fel y dangosir yn y sgrin lun isod:





Pan fyddwch wedi gorffen yn yr adran hon, cliciwch **Nesaf**.

## Cyflwyniad

Rydych bellach wedi cyrraedd i ffurflen Ailwerthuso, ynghyd â chyflwyniad fel y dangosir yn y sgrin lun isod. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen yr holl nodiadau ar yr adran hon.

Ar y chwith fe welwch wahanol adrannau. Mae croes goch yn dangos nad ydych wedi mynd i mewn i bob adran eto, neu fod gwall o fewn yr adran(nau). Bydd tic gwyrdd yn ymddangos ar ôl ichi lenwi pob adran a phan nad yw’r system wedi nodi unrhyw wallau.

Mae botymau gwe-lywio ar frig a gwaelod y ffurflen. Gallwch newid i'r ffurflen Gymraeg drwy ddewis Cymraeg ar waelod y sgrin ar yr ochr chwith.





Cliciwch **Nesaf** a bydd hyn yn mynd â chi i'r hysbysiad preifatrwydd a nodir yn flaenorol ar dudalen 6.  Cliciwch **Nesaf** eto.

[Yn ôl i'r Tabl Cynnwys]

## Manylion y Prosiect


Mae'r dudalen hon yn dangos y manylion a roesoch wrth gwblhau'r Cais i Newid Prosiect, ond gallwch newid y math o newidiadau ar yr adeg hon.  Cliciwch **Nesaf**.




Bydd pob newid lle atebir **Ydw** yn dangos y dogfennau ategol y bydd angen ichi eu cwblhau.

Pan wnaethom roi'r ffurflen hon ichi, gwnaethom hefyd sicrhau bod y templedi gofynnol ar gael ichi yn eich negeseuon.


Os ydych wedi dewis **Ydw** i Symud gwariant rhwng blynyddoedd ariannol, bydd tabl yn ymddangos, fel y dangosir isod. Nodwch y gwerthoedd diwygiedig ar gyfer y blwyddyn bresennol a blynyddoedd y dyfodol – rhaid i'r rhain cyd-fynd âr gwerthoedd yn y dogfennau ategol. Mae angen ichi roi'r Grant Cyfalaf a'r Grant Refeniw y gofynnwyd amdano ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n berthnasol. Bydd angen ichi hefyd roi esboniad yn yr adran Rhesymau dros Newidiadau fel y nodir yn y canllawiau ar y Rhesymau dros Newidiadau isod.




## Rhesymau dros Newidiadau

Yn yr adran hon, mae angen ichi roi manylion llawn y newidiadau yr hoffech eu gwneud i'r prosiect:

- disgrifiad manwl o'r newidiadau arfaethedig
- y rhesymau dros y newidiadau, er enghraifft yr hyn a ddigwyddodd i effeithio ar y gwaith o gyflawni'r prosiect
- disgrifiad o sut mae'r newidiadau'n effeithio ar y gwaith o gyflawni, yn enwedig y dangosyddion a'r canlyniadau
- esboniad o sut mae'r prosiect sydd wedi newid yn parhau i adlewyrchu amcanion y cynllun busnes a'r cynllun yn gyffredinol






Os gwnaethoch ddewis symud gwariant rhwng blynyddoedd, mae angen ichi roi esboniad yn y blwch 'Rhowch fanylion yr amgylchiadau eithriadol ar gyfer gwneud cais i symud arian rhwng blynyddoedd ariannol.


**Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb**

Mae'r dudalen hon yn rhoi crynodeb o'r newidiadau y gofynnwyd amdanynt a'r wybodaeth a roddwyd, ond ar yr adeg hon dewiswch **Yn ôl** i newid unrhyw fanylion. Os oes unrhyw wallau ar y ffurflen bydd y rhain hefyd yn ymddangos ar y sgrin lun canlynol:




## Datganiadau ac Ymrwymiadau

Os ydych yn fodlon ar y wybodaeth rydych wedi'i rhoi ticiwch 'Rwyf yn cytuno i'r datganiadau a'r ymrwymiadau uchod', yna cliciwch **Nesaf**.




Yna cliciwch **Cyflwyno.**




Bydd y neges ganlynol yn ymddangos yn cadarnhau bod y cais am ailwerthusiad wedi'i gyflwyno.

